
Safle BBC Sounds yn y Farchnad

Ymgynghoriad

YMGYNGHORIAD:

Dyddiad cyhoeddi: 4 Mai 2021

Dyddiad cau ar gyfer ymatebion: 29 Mehefin 2021

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg	1
2. Cefndir yr ymgynghoriad hwn	3

1. Trosolwg

Rydym yn ymgynghori ar ein safbwyntiau cychwynnol ynghylch safle BBC Sounds yn y farchnad a'i effaith ar y farchnad.

Mae BBC Sounds yn wasanaeth lawrlwytho a ffrydio sain gan y BBC, ac mae'n cynnwys radio byw, cynnwys ar-alw a phodlediadau. Mae'r gwasanaeth ar gael ar amrywiaeth o ddyfeisiau, gan gynnwys ffonau clyfar, dyfeisiau tabled, seinyddion clyfar a systemau sain mewn ceir.

Ym mis Hydref 2020, roeddem wedi cyhoeddi cais am dystiolaeth, lle'r oeddem yn gofyn am dystiolaeth a gwybodaeth gan randdeiliaid. Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn egluro ein safbwyntiau cychwynnol ynghylch safle BBC Sounds yn y farchnad a'i effaith ar y farchnad, ar ôl ystyried yr ymatebion i'r cais am dystiolaeth a gwybodaeth arall am y farchnad.

Rydym yn croesawu safbwyntiau a thystiolaeth ynghylch ein safbwyntiau cychwynnol gan bartion sydd â diddordeb. Y dyddiad olaf ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 29 Mehefin 2021. Ein nod yw cyhoeddi ein datganiad yn yr hydref.

Ein safbwyntiau cychwynnol – yn gryno

- Mae'r sector radio a sain yn y DU yn mynd drwy gyfnod o newid sydyn oherwydd datblygiad gwasanaethau ar-lein, a thwf llwyfannau ffrydio byd-eang. Mae radio masnachol a'r BBC wedi ymateb i hyn drwy ddatblygu eu darpariaeth ar-lein.
- Rydym wedi ystyried sut gallai BBC Sounds gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth drwy ddominyddu radio ar-lein, gan gynnwys drwy drawshyrwyddo BBC Sounds, a drwy gael effaith negyddol ar refeniw podlediadau masnachol.
- Rydym wedi dod i gasgliad cychwynnol nad oes gennym ni sail resymol dros gredu bod BBC Sounds yn cael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu'r canlynol, ymysg pethau eraill: bod radio masnachol wedi bod yn fwy llwyddiannus o ran denu gwrandawyr ar-lein na BBC Sounds; bod gwrandawyr BBC Sounds yn defnyddio nifer o lwyfannau (yn fwy na gwrandawyr llwyfannau ar-lein eraill); bod gan sector podlediadau'r DU amrywiaeth eang o gynnwys nad yw'n dod gan y BBC, a bod cynhyrchwyr yn gallu cynhyrchu refeniw.
- O ganlyniad i hynny, nid ydym ni o'r farn bod y trothwy wedi'i fodloni ar hyn o bryd ar gyfer bwrw ymlaen i gynnal adolygiad cystadleuaeth o BBC Sounds o dan Siarter a Chytundeb y BBC. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i fonitro datblygiad BBC Sounds.
- Rydym yn disgwyl tryloywder, ac ymgysylltiad gan y BBC â'r farchnad, ynghylch ei gynlluniau a'i strategaeth ar gyfer y dyfodol, er mwyn galluogi'r BBC i ddeall sut gallai ei gynigion effeithio ar gystadleuaeth, ac i ystyried hyn wrth eu datblygu. Rydym yn gofyn am safbwyntiau ar yr wybodaeth sy'n cael ei darparu gan y BBC, a pha welliannau y gellid eu gwneud.
- Rydym hefyd yn disgwyl i'r BBC fabwysiadu dull mwy systematig o fesur perfformiad BBC Sounds, a chyhoeddi rhagor o wybodaeth am sut mae gwrandawyr yn defnyddio BBC Sounds. Bydd hyn yn golygu ei bod yn haws deall sut mae ei ddatblygiad yn cyfrannu at y broses o gyflawni Cenhadaeth y BBC a hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus.
- Yn ein barn ni, gallai fod cyfle am fwy o gydweithio rhwng y BBC a darparwyr cynnwys sain eraill mewn perthynas â BBC Sounds, a allai helpu i gefnogi dyfodol radio yn y DU yng nghyd-destun yr heriau mae'r sector yn eu hwynebu.

- Rydym yn dechrau ar ein hadolygiad cyfnodol cyntaf o'r BBC, sy'n debygol o ystyried y fframwaith rheoleiddio ar gyfer archwilio newidiadau arfaethedig i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC. Rydym hefyd yn ystyried sut dylai Trwydded Weithredu'r BBC ddatblygu, ymysg pethau eraill, i sicrhau ei bod yn cynnwys gwasanaethau ar-lein y BBC. Fel rhan o hyn, byddwn ni'n ystyried pa ofynion sydd eu hangen mewn perthynas â BBC Sounds, er enghraifft o ran yr wybodaeth mae'r BBC yn ei darparu am gyfraniad BBC Sounds at y Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus neu am ei berfformiad, er mwyn sicrhau mwy o atebolrwydd.

2. Cefndir yr ymgynghoriad hwn

Cyflwyniad

- 2.1 Mae'r adran hon yn rhoi cyd-destun ffeithiol a rheoleiddiol i'n hymgyngoriad ar safle BBC Sounds yn y farchnad. Mae'n crynhoi ein cais am dystiolaeth ynghylch BBC Sounds a gyhoeddwyd gennym y llynedd, yn ogystal â'r prif bwyntiau a godwyd gan ymatebwyr. Yn dilyn hynny, mae'n rhoi disgrifiad ffeithiol o BBC Sounds, cyn rhoi esboniad o'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer y BBC. Mae'n dirwyn i ben drwy nodi prosiectau eraill Ofcom sy'n berthnasol i BBC Sounds, ac adolygiad presennol y Llywodraeth o radio digidol a sain.
- 2.2 Mae gweddill yr ymgynghoriad hwn wedi'i strwythuro fel hyn:
- Mae Adran 3 yn egluro ein dealltwriaeth o gyd-destun y farchnad y mae BBC Sounds wedi datblygu ynddi, ar sail gwybodaeth a ddarparwyd i ni mewn ymateb i'r cais am dystiolaeth a'n hymchwil ein hunain i'r farchnad. Mae'n sail i'n hasesiad cystadleuaeth yn adran 4, a'n safbwyntiau cychwynnol yn adran 5.
 - Yn adran 4, rydym yn ymgynghori ar ein hasesiad ynghylch a yw BBC Sounds yn cael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.
 - Yn adran 5, rydym yn ymgynghori ar ein safbwyntiau cychwynnol ynghylch y canlynol:
 - wrth ystyried ein hasesiad cystadleuaeth, a fyddai'n briodol i Ofcom gynnal adolygiad cystadleuaeth ffurfiol mewn perthynas â'r BBC o ran BBC Sounds;
 - pryd gallai newidiadau yn y dyfodol i BBC Sounds achosi problemau o ran cystadleuaeth;
 - beth rydym yn ei ddisgwyl gan y BBC o ran tryloywder ac ymgysylltu ag eraill wrth i BBC Sounds ddatblygu;
 - manteision posibl rhagor o gydweithio rhwng y BBC a thrydydd partion mewn perthynas â BBC Sounds.

Cais am dystiolaeth ynghylch safle BBC Sounds yn y farchnad a'i effaith ar y farchnad

- 2.3 Ar 14 Hydref 2020, roeddem wedi cyhoeddi cais am dystiolaeth a oedd yn gofyn am dystiolaeth a gwybodaeth mewn perthynas â safle BBC Sounds yn y farchnad a'i effaith ar y farchnad.¹
- 2.4 Yn y cais am dystiolaeth, roeddem wedi dweud mai dyma oedd yr amser iawn i ystyried safle'r BBC ym maes sain ar-lein, wrth ystyried:
- bod y sector sain wedi bod yn mynd drwy gyfnod o newid sydyn oherwydd datblygiad gwasanaethau ffrydio, gan gynnwys twf cyflym chwaraewyr byd-eang fel Spotify ac Apple Music;
 - bod disgwyliadau cynulleidfaoedd wedi bod yn newid hefyd, gyda phobl yn gwranddo mwy a mwy ar gynnwys sain ar-lein;

¹ [Lleoliad BBC Sounds yn y farchnad](#), cais am dystiolaeth, Ofcom, Hydref 2020.

- y bu nifer o newidiadau graddol i BBC Sounds ers iddo gael ei lansio yn 2018, mewn ymateb i'r newidiadau hyn; a,
- bod cystadleuwyr yn y sector radio masnachol wedi codi pryderon wrthym ni am ddatblygiad BBC Sounds a'i safle yn y farchnad.

2.5 Roeddem wedi gofyn am dystiolaeth gan randdeiliaid am yr effaith y mae BBC Sounds yn ei chael ar y farchnad, gan gynnwys gwybodaeth am gyd-destun y farchnad y mae BBC Sounds yn gweithredu ynddi. Roeddem hefyd wedi dweud ein bod ni'n awyddus i ddeall strategaeth y BBC ar gyfer BBC Sounds, y rôl y mae'n disgwyl i'r gwasanaeth ei chwarae er mwyn cyflawni Cenhadaeth y BBC a hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus, a sut gallai hyn effeithio ar gystadleuaeth.

Ymatebion i'r cais am dystiolaeth

- 2.6 Cawsom 20 ymateb i'r cais am dystiolaeth gan amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys grwpiau radio masnachol, cwmnïau cynhyrchu a'r BBC.²
- 2.7 Yn adrannau 3, 4 a 5 yr ymgynghoriad hwn, rydym yn rhoi sylw i'r pwyntiau a godwyd gan ymatebwyr. Mae'r themâu allweddol sy'n deillio o'r ymatebion wedi cael eu crynhoi isod.

Safle BBC Sounds yn y farchnad a'i effaith ar y farchnad

- 2.8 Dywedodd rhai ymatebwyr, fel Global, Radiocentre a Wireless Group, fod BBC Sounds yn creu sefyllfa annheg o ran dosbarthu, darlledu a chynhyrchu sain, a'i fod felly'n niweidio cystadleuaeth a'r dewis sydd ar gael i ddefnyddwyr.
- 2.9 Y rheswm am hynny medden nhw oedd bod BBC Sounds yn elwa o bresenoldeb unigryw'r BBC ym myd radio, cyllideb fawr iawn a'r gallu i drawshyrwyddo ei wasanaethau, sydd y tu hwnt i gyrraedd radio masnachol, a'i fod hefyd yn darparu gormod o gynnwys sain nad yw'n ddigon gwahanol i gynnwys radio masnachol.
- 2.10 Dywedodd Radiocentre fod BBC Sounds yn gystadleuydd agosach i wasanaethau radio'r DU nag ydyw i lwyfannau ffrydio byd-eang fel Spotify ac Apple Music.
- 2.11 O ran podlediadau, dywedodd Global, Name Withheld 2 a Wireless fod cyflenwad y BBC o nifer fawr o bodlediadau heb hysbysebion yn cael effaith niweidiol ar y sector masnachol, neu fod perygl o hynny. Dywedodd Radiocentre a Wireless fod y DU, o'r herwydd, ar ei hôl hi wrth gymharu â gwledydd eraill o ran cynhyrchu refeniw hysbysebu o bodlediadau.

Tryloywder ac ymgysylltu â thrydydd partïon

- 2.12 Dywedodd Global a Radiocentre y dylai rhanddeiliaid gael gwell syniad o effaith bosibl newidiadau i BBC Sounds, a bod angen i'r BBC ddarparu gwybodaeth fanylach am ei gynlluniau, er mwyn i randdeiliaid allu ymgysylltu'n ystyrlon â'r BBC.
- 2.13 Codwyd pryderon gyda ni hefyd gan Better Media, Radiocentre a Wireless nad oes digon o wybodaeth ariannol na gwybodaeth am gynulleidfa oedd yn cael ei chyhoeddi ynghylch BBC

²Mae'r ymatebion ar gael yn: <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-3/bbc-sounds-market-position>

Sounds. Dywedodd Global a Radiocentre fod angen i'r BBC ddatgelu'n llawn faint o drawshyrwyddo mae'n ei wneud mewn perthynas â BBC Sounds.

- 2.14 Dywedodd y BBC fod BBC Sounds wedi cael ei ddatblygu'n agored ac yn dryloyw, gan gadw'n llwyr at y gofynion sydd wedi'u nodi yn y Siarter a'r Cytundeb, ym mholisi'r BBC ar newidiadau sylweddol ac yng ngweithdrefnau a chanllawiau Ofcom ar newidiadau arfaethedig i Wasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU.

Cynnwys radio trydydd parti ar BBC Sounds

- 2.15 Ym mis Mawrth 2019, cyhoeddodd y BBC fod ganddo gynlluniau ar gyfer cydgasgliad o bodlediadau a radio masnachol ar BBC Sounds. Bu'n ymgysylltu â rhanddeiliaid radio masnachol ar y cynlluniau hyn am fisoedd lawer. Ond, ar ôl i rai grwpiau radio masnachol dynnu'n ôl o'r trafodaethau, penderfynodd y BBC beidio â mynd ar ôl cydgasgliad radio masnachol.
- 2.16 Yn eu hymatebion i'n cais am dystiolaeth, dywedodd Wireless a Phwyllgor Cynghori yr Alban y byddai wedi bod o fudd i wrandawyr ac i'r sector sain petai'r BBC wedi bwrw ymlaen â'i gynlluniau i gynnwys radio masnachol yn BBC Sounds.

Digonolrwydd fframwaith rheoleiddio'r BBC

- 2.17 Dywedodd Radiocentre nad oedd y broses reoleiddio ar gyfer asesu'r effaith y mae newidiadau i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC yn ei chael ar y farchnad yn sicrhau bod y newidiadau'n cael eu harchwilio'n ddigonol, a bod cymhelliant felly i'r BBC wneud mân newidiadau y mae'n honni, yn ôl Radiocentre, nad ydynt yn rhai sylweddol. Dywedodd Radiocentre ei fod o'r farn bod y newidiadau roedd y BBC wedi'u gwneud i BBC Sounds ers ei lansio wedi ehangu cwmpas BBC Sounds yn sylweddol, a bod hynny'n debygol o niweidio cystadleuaeth.
- 2.18 Dywedodd Audio UK, Global, Radiocentre, Wireless ac 'Anhysbys 2' nad oedd goruchwyliaeth reoleiddiol effeithiol o BBC Sounds, oherwydd nad yw wedi cael ei restru fel un o'r Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU ac nad yw'n rhwym wrth amodau rheoleiddio yn y Drwydded Weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU (y "**Drwydded Weithredu**").³

Strategaeth y BBC ar gyfer sain ar-lein

- 2.19 Eglurodd y BBC fod BBC Sounds yn rhan ganolog o'i strategaeth sain, a bod yr uchelgais roedd wedi'i hamlinellu yn 2017 yn parhau: mae'r BBC eisiau i BBC Sounds fod yn brofiad personol sy'n gwbl seiliedig ar y defnyddiwr. Dywedodd fod ei ddisgrifiad diweddaraf o'i strategaeth wedi'i gynnwys yng Nghynllun Blynyddol 2020/21 y BBC.⁴

³ [Y drwydded weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU](#), Ofcom, Hydref 2017 (Diweddarwyd Gorffennaf 2020) – mae manylion y Drwydded Weithredu i'w gweld isod.

⁴ [Cynllun Blynyddol 2020/21 y BBC](#), Mai 2020, tudalennau 25 a 26.

Beth yw BBC Sounds?

- 2.20 Mae BBC Sounds yn wasanaeth lawrlwytho a ffrydio sain gan y BBC. Mae'n cynnwys gorsafoedd radio byw a ffrydiau byw eraill, mynediad at gynnwys ar-alw fel cymysgedd o gerddoriaeth a phodlediadau.
- 2.21 Mae'n cyflwyno cynnwys i ddefnyddwyr mewn ffordd sydd wedi'i phersonoli. Er enghraifft, mae'n gadael i ddefnyddwyr lwytho cynnwys i lawr i'w ddefnyddio pan nad ydynt wedi cysylltu â'r rhyngwrdd, ac yn ei gwneud yn bosibl i stopio radio byw am gyfnod, a'i 'weindio' yn ôl.
- 2.22 Mae BBC Sounds ar gael fel ap ar systemau gweithredu fel Android ac iOS, yn ogystal â drwy wefan y BBC. Felly mae'n bosibl ei ddefnyddio gydag amrywiaeth eang o ddyfeisiau wedi'u cysylltu, gan gynnwys ffonau symudol a dyfeisiau tabled, cyfrifiaduron personol, seinyddion clyfar,⁵ systemau sain mewn ceir a setiau teledu clyfar.

Fframwaith rheoleiddio ar gyfer y BBC

- 2.23 Yn ôl Siarter Frenhinol y BBC (y "**Siarter**"),⁶ Cenhadaeth y BBC yw gweithredu er lles y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu cynnwys a gwasanaethau diduedd ac unigryw o safon uchel sy'n hysbysu, yn addysgu, ac yn diddanu.⁷ Mae'r Siarter hefyd yn nodi Dibenion Cyhoeddus y BBC.⁸
- 2.24 Mae'n rhaid i'r BBC gyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus wrth gyflawni ei Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU.⁹ Mae Gwasanaethau Cyhoeddus presennol y BBC yn y DU yn cael eu henwi mewn rhestr sy'n cael ei chadw a'i chyhoeddi gan y BBC.¹⁰ Maen nhw'n cynnwys "BBC Online", sy'n cael ei ddiffinio fel "gwasanaeth cynnwys ar-lein cynhwysfawr, gyda chynnwys sy'n gwasanaethu holl Ddibenion Cyhoeddus y BBC, gan gynnwys gwefannau newyddion a chwaraeon y BBC, BBC iPlayer a BBC Three ar gyfer cynulleidfaoedd oedolion iau." Mae BBC Sounds yn rhan o BBC Online, sy'n un o'r Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU.
- 2.25 Ym maes perfformiad, rhaid i Fwrdd y BBC arwain y BBC i gyflawni nodau'r Siarter.¹¹ Mae'n rhaid i'r BBC gyhoeddi Cynllun Blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, cyn y cyfnod y

⁵ I ddefnyddio BBC Sounds ar seinyddion clyfar Amazon, mae angen i ddefnyddwyr alluogi BBC Sounds Skill yn Amazon Alexa (apiau sy'n defnyddio llais y gellir eu llwytho i lawr yw Alexa Skills, er mwyn ei gwneud yn haws i ddefnyddio seinyddion clyfar).

⁶ [Royal Charter for the continuance of the British Broadcasting Corporation](#), Rhagfyr 2016.

⁷ Erthygl 5 y Siarter.

⁸ Erthygl 6 y Siarter.

⁹ Erthygl 7(3) y Siarter.

¹⁰ Mae Erthygl 7(3) y Siarter yn amodi ei bod yn rhaid i Wasanaethau Cyhoeddus y DU gynnwys, ymysg pethau eraill, y gwasanaethau presennol sydd wedi'u nodi yn y Cytundeb Fframwaith (sy'n cyfeirio at y [Cytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r BBC](#), Rhagfyr 2016). Mae Cymal 7(1) y Cytundeb yn amodi bod y Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU yn cynnwys y gwasanaethau a bennir gan neu o dan Atodlen 1. Mae Atodlen 1 paragraff 1(1) yn mynnu bod y BBC yn cadw ac yn cyhoeddi rhestr o'r Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU. Mae'r rhestr ddiweddaraf o'r Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU (diweddarwyd ar 24 Chwefror 2019) ar gael yn:

http://downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/managementstructure/structureandgovernance/list_of_uk_public_services_feb_2019.pdf.

¹¹ Erthygl 20(3)(a) a (b) y Siarter.

mae'r Cynllun Blynyddol yn berthnasol iddo, a rhaid iddo gynnwys y cylch gwaith creadigol a'r cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn honno.¹² Mae'n rhaid i'r BBC hefyd gyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n gorfod cynnwys sut mae wedi cyflawni'r cylch gwaith creadigol a'i gynllun gwaith, ac unrhyw newidiadau sylweddol i'w weithgareddau.¹³

- 2.26 Un o gyfrifoldebau canolog Ofcom mewn perthynas â'r BBC yw ei ddal i gyfrif am gyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus. Mae Ofcom wedi gosod y Drwydded Weithredu, sy'n nodi ystod o Amodau Rheoleiddio y mae'n rhaid i'r BBC eu bodloni. Mae'r Drwydded Weithredu yn berthnasol i'r holl Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU, gyda rhai o'r Amodau Rheoleiddio yn cyfeirio at wasanaethau unigol y BBC. Mae Ofcom hefyd wedi gosod mesurau i asesu perfformiad y Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU o ran cyflawni Cenhadaeth y BBC a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus.¹⁴
- 2.27 Mae'r Fframwaith Gweithredu¹⁵ ar gyfer y BBC yn cynnwys y darpariaethau y mae Ofcom yn credu sy'n briodol i sicrhau bod gweithgareddau'r BBC, sydd wedi'u nodi yn y Siarter a'r Cytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r BBC, yn cael eu rheoleiddio'n effeithiol (y "**Cytundeb**").¹⁶
- 2.28 Mae'r Siarter yn mynnu bod Ofcom yn cyhoeddi adroddiad bob blwyddyn sy'n egluro sut rydym wedi cyflawni ein swyddogaethau, ac wedi asesu cydymffurfedd y BBC â'r Drwydded Weithredu a gofynion rheoleidiol eraill.¹⁷ Mae'n rhaid i ni hefyd gynnal a chyhoeddi dau adolygiad cyfnodol manwl neu fwy yn ystod cyfnod y Siarter, ynghylch i ba raddau y mae'r BBC yn cyflawni ei Genhadaeth ac yn hyrwyddo pob un o'r Dibenion Cyhoeddus.¹⁸

Tryloywder ac atebolrwydd

- 2.29 Mae'n rhaid i'r BBC gadw at safonau uchel o ran bod yn agored, a cheisio sicrhau ei fod mor dryloyw ac agored â phosibl.¹⁹ Fel rhan o hynny mae'n rhaid iddo sicrhau, ymysg pethau eraill, bod penderfyniadau pwysig am newidiadau i'w gylch gwaith creadigol a'i gynllun gwaith, ynghyd â'r rhesymau y tu ôl iddynt a chrynodeb o'r dystiolaeth sy'n eu hategu, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth arall y mae'n rhesymol ac yn gymesur ei chyhoeddi er mwyn cydymffurfio â'i rwymedigaethau tryloywder, yn cael eu cyhoeddi cyn gynted â phosibl. Rhaid iddo hefyd ystyried manteision ymgynghori â phobl sydd â buddiant mewn perthynas â phrif swyddogaethau ei Fwrdd. Mae hynny'n cynnwys pennu cyfeiriad strategol y BBC.

¹² Erthygl 36 y Siarter.

¹³ Erthygl 37 y Siarter.

¹⁴ https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0015/107070/bbc-performance-statement-annexes.pdf

¹⁵ <https://www.ofcom.org.uk/cymru/tv-radio-and-on-demand/information-for-industry/bbc-operating-framework/operating-framework>

¹⁶

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/584329/57965_Cm_9366_Print_1.pdf

¹⁷ Erthygl 50 y Siarter. Mae ein hadroddiad blynyddol diweddaraf ar y BBC ar gael yn: <https://www.ofcom.org.uk/cymru/tv-radio-and-on-demand/information-for-industry/bbc-operating-framework/performance/bbc-annual-report>.

¹⁸ Erthygl 51 y Siarter.

¹⁹ Erthygl 12 y Siarter.

Cydweithio

- 2.30 Rhaid i'r BBC gydweithio a cheisio ffurfio partneriaethau â sefydliadau eraill, pan fyddai gwneud hynny o fudd i'r cyhoedd.²⁰

Rôl y BBC ac Ofcom mewn perthynas â chystadleuaeth

- 2.31 Gan fod y BBC yn sefydliad mawr sy'n cael arian cyhoeddus, sy'n gweithredu ar draws y sectorau teledu, radio ac ar-lein yn y DU, mae'n anochel bod y BBC yn effeithio ar gystadleuaeth yn y sector cyfryngau. Mae'n bosibl i'r effaith hon fod yn gadarnhaol, gan ysgogi'r galw neu hybu arloesedd. Ond wrth gyflawni ei amcanion, gall y BBC hefyd niweidio gallu cwmnïau eraill i gystadlu'n effeithiol.
- 2.32 Mae angen i'r BBC ddatblygu er mwyn cyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus, yn arbennig wrth ystyried datblygiadau yn y sector. Ond, mae'n bwysig nad yw datblygiadau yn narpariaeth y BBC yn rhwystro cystadleuaeth mewn ffordd a allai niweidio buddiannau cynulleidfaoedd. Felly, mae'n rhaid i'r BBC ystyried effeithiau ei weithgareddau ar gystadleuaeth. Fel rhan o hynny, mae angen i'r BBC ystyried gwerth cyhoeddus ei weithgareddau a cheisio osgoi effeithiau negyddol diangen ar gystadleuaeth yn y DU. Mae angen iddo hefyd ystyried sut gall hyrwyddo effeithiau cadarnhaol ar y farchnad ehangach.
- 2.33 Rôl Ofcom yw sicrhau bod y BBC yn cael ei reoleiddio'n gadarn, yn deg ac yn annibynnol, gan ystyried amcan y BBC i gyflawni ei Genhadaeth ac i hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus, yn ogystal â'r fantais o ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol.²¹ Ymysg pethau eraill, mae'n rhaid i Ofcom osod gofynion yn Fframwaith Gweithredu'r BBC i ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y DU²² a, phan fydd hynny'n briodol, gall gynnal adolygiad cystadleuaeth mewn perthynas â'r BBC ("BCR").²³
- 2.34 Mae'r Siarter hefyd yn gosod rhwymedigaethau penodol ar y BBC mewn perthynas â newidiadau arfaethedig i'w Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU, sy'n cael eu hegluro ymhellach yn y Cytundeb a'r Fframwaith Gweithredu.²⁴ Yn benodol, mae'n rhaid i'r BBC ystyried a yw unrhyw newidiadau arfaethedig i'w Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU yn rhai sylweddol.²⁵ Os yw'r BBC yn credu eu bod yn rhai sylweddol, rhaid iddo gynnal Prawf Budd y Cyhoedd ("PIT"). Pan fydd y prawf yn cael ei fodloni, mae'n rhaid i'r BBC gyhoeddi'r newidiadau, a dim ond os bydd Ofcom wedi penderfynu y gall fwrw ymlaen y bydd yn mynd ati i'w rhoi ar waith. Wrth ddod i benderfyniad, gall Ofcom gynnal (i) asesiad cystadleuaeth mewn perthynas â'r BBC ("BCA"), sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried a yw gwerth cyhoeddus y newid arfaethedig yn cyfiawnhau unrhyw effeithiau niweidiol ar

²⁰ Erthygl 13 y Siarter.

²¹ Erthygl 45 y Siarter.

²² Erthygl 46(5)(b) y Siarter.

²³ Gweler isod.

²⁴ Darllenwch Erthygl 20(4) y Siarter, a chymalau 7–11 y Cytundeb. Gweler hefyd:

https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0028/99415/bbc-public-service-activities-proposed.pdf.

²⁵ Bydd cyflwyno Gwasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU yn newid sylweddol bob amser. I benderfynu a yw newidiadau i Wasanaethau Cyhoeddus presennol y BBC yn y DU yn rhai sylweddol, mae'n rhaid i'r BBC ystyried a allai'r newid gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

gystadleuaeth deg ac effeithiol, neu (ii) asesiad byrrach. Os oes newid sylweddol heb gael ei gyhoeddi gan y BBC gall Ofcom, ymysg pethau eraill, roi gorchymyn i'r BBC gynnal Prawf Budd y Cyhoedd.

Adolygiadau cystadleuaeth y BBC

- 2.35 Fel rhan o'n rôl mewn perthynas â chystadleuaeth, gallwn gynnal BCR os oes gennym sail resymol dros gredu bod cyflawni un o'r Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU yn cael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Rhaid i BCR asesu a yw gwerth cyhoeddus y gweithgaredd perthnasol yn cyfiawnhau unrhyw effaith negyddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Gallai ddod i'r casgliad y caiff y BBC barhau â'r gweithgaredd, neu ei fod yn rhaid iddo wneud addasiadau, neu barhau yn unol ag amodau.²⁶
- 2.36 Rydym wedi cyhoeddi canllawiau sy'n egluro'r dull gweithredu y byddwn ni'n ei fabwysiadu wrth benderfynu a ddylid lansio ac wedyn cynnal BCR (ein "**canllawiau BCR**").²⁷ Fel y nodir yn ein canllawiau BCR, mae dwy elfen i'r penderfyniad i gychwyn BCR: (a) a yw'r trothwy isaf, y mae'n rhaid ei fodloni cyn cychwyn BCR, wedi cael ei fodloni; a (b) a fyddai'n briodol cychwyn BCR wrth ystyried y materion, gan gynnwys graddfa'r effeithiau ymddangosiadol, unrhyw farn gychwynol am werth posibl i'r cyhoedd, a mesurau a allai fod ar gael i ddatrys y broblem.

Y fframwaith rheoleiddio a BBC Sounds

- 2.37 Lansiodd BBC Sounds ym mis Hydref 2018, ac roedd yn dod â swyddogaethau a chynnwys iPlayer Radio (a lansiodd ym mis Hydref 2012) a BBC Music (a lansiodd ym mis Hydref 2014) at ei gilydd ar un wefan ac ap unedig, ac roedd yn cynnwys nifer fach o welliannau i'r swyddogaethau a'r cynnwys.
- 2.38 Cyn hynny, roedd y BBC wedi rhannu asesiad perthnasedd â ni o'i gynigion ar gyfer BBC Sounds, a oedd yn dod i'r casgliad na fyddai'n golygu newid sylweddol i BBC Online, un o'i Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU. Roeddem yn cytuno â'r BBC nad oedd y cynigion yn golygu newid sylweddol.
- 2.39 Y llynedd, roeddem wedi adolygu asesiadau perthnasedd y BBC o'i gynnig i gyfuno podlediadau trydydd parti ar BBC Sounds, a'i gynnig i lansio ffrwd Radio 1 Dance ar y gwasanaeth. Ym mhob achos, roeddem yn cytuno â'r BBC nad oedd ei gynigion yn golygu newid sylweddol i Wasanaeth Cyhoeddus BBC Online.
- 2.40 Fel rhan o Wasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU, mae BBC Sounds yn rhwym wrth y gofynion perthnasol yn y Siarter a'r Cytundeb, Fframwaith Gweithredu Ofcom, a'r Drwydded Weithredu. Nid oes Amodau Rheoleiddio penodol ynghlwm wrth BBC Sounds yn y Drwydded Weithredu, er bod nifer o orsafoedd radio'r BBC sydd wedi'u cynnwys yn y Drwydded Weithredu yn rhwym wrth Amodau Rheoleiddio penodol. Mae hefyd nifer cyfyngedig o Amodau Rheoleiddio sy'n ymwneud yn benodol â BBC Online yn gyffredinol.

²⁶ Cymal 12 y Cytundeb.

²⁷ [Assessing the impact of the BBC's public service activities](#), Ofcom, Mawrth 2017.

2.41 O dan y Siarter, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod y broses o hyrwyddo Gwasanaeth Cyhoeddus yn y DU ar ei Wasanaethau Cyhoeddus eraill yn y DU yn canolbwyntio ar gynnwys sy'n cyfrannu'n sylweddol at y broses o gyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus. Mae'n rhaid i'r BBC hefyd gyhoeddi gwybodaeth am ddulliau trawshyrwyddo o'r fath.²⁸ Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddarpariaethau yn y Fframwaith Gweithredu ynghylch sut mae'r BBC yn trawshyrwyddo ei Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU.

Cyfraniad BBC Sounds at gyflawni Cenhadaeth a Dibenion Cyhoeddus y BBC

2.42 Fel y nodir uchod, mae'n rhaid i'r BBC gyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus wrth gyflawni ei Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU. Dyma'r Dibenion Cyhoeddus:

- Diben Cyhoeddus 1: darparu newyddion a gwybodaeth ddiuedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas.
- Diben Cyhoeddus 2: cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed.
- Diben Cyhoeddus 3: dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol, unigryw ac o'r ansawdd gorau.
- Diben Cyhoeddus 4: adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl ranbarthau a gwledydd y Deyrnas Unedig ac, wrth wneud hynny, cefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig.
- Diben Cyhoeddus 5: adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd.²⁹

Ymateb y BBC i'r cais am dystiolaeth

2.43 Yn ei ymateb i'r cais am dystiolaeth, dywedodd y BBC fod y broses o greu a datblygu BBC Sounds wedi cyfrannu, ac yn parhau i gyfrannu, at allu'r BBC i gyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus, drwy sicrhau bod ei gynnwys sain ar gael mewn ffyrdd a ddisgwylir gan gynulleidfaedd.

Cynllun Blynyddol 2021/22 y BBC

2.44 Mae Cynllun Blynyddol 2021/22 y BBC yn amlinellu ei gynlluniau strategol ar gyfer sain, gan gynnwys BBC Sounds.³⁰ Yn Atodiad 2 y Cynllun Blynyddol, mae'r BBC yn datgan sut mae'n bwriadu hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus ar draws ei holl wasanaethau. Isod, ceir dyfyniadau o Atodiad 2 sy'n ymwneud yn benodol â BBC Sounds.

²⁸ Erthygl 63 y Siarter.

²⁹ Yn ymarferol, nid yw'r BBC yn cyflawni ei bumed Diben Cyhoeddus drwy Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU.

³⁰ [Cynllun Blynyddol 2021/22 y BBC](#), Mawrth 2021. Edrychwch ar dudalennau 22 a 23.

Diben Cyhoeddus 1

“Bydd BBC News yn ystyried ffyrdd o wella’r ddarpariaeth newyddion ar BBC iPlayer a BBC Sounds, gan arbrofi â ffyrdd newydd o ddarparu bwletinâu newyddion a chasglu cynnwys newyddion.”

Diben Cyhoeddus 3

“Bydd Radio 3 yn darlledu fformatau rhaglenni cerddoriaeth sydd â doniau a naws unigryw, gan adeiladu ar lwyddiant Tearjerker; Downtime Symphony; a gomisiynwyd gyda BBC Sounds, er mwyn hybu’r broses o ddarganfod a chyflwyno cerddoriaeth glasurol i gynulleidfaoedd newydd ac ifanc sy’n gwerthfawrogi sawl genre, ac na fyddent byth o bosibl yn dod ar draws y gerddoriaeth fel arall.

Bydd BBC Sounds yn brofiad sy’n rhoi lle canolog i radio byw: gyda dulliau cydweithredol newydd o gomisiynu sy’n darparu cynnwys unigryw, digwyddiadau nodedig a chyfnodau gwranddo rheolaidd sy’n cyd-fynd â’i gilydd ar draws gwasanaethau llinol ac ar-alw.

Pwerdy creadigol ar gyfer y DU: adnewyddu darpariaeth ein gorsafoedd radio gwych i sicrhau gwerth i bob cynulleidfa, datblygu doniau amrywiol newydd drwy gynllun Sounds Lab, archwilio ffyrdd newydd o weithio mewn partneriaeth â radio cymunedol, ac arddangos y podlediadau poblogaidd a newydd gorau ym Mhrydain.

Yn fwy lleol nag erioed: ei gwneud hi’n haws dod o hyd i gynnwys lleol a Gwledydd, ar ei ben ei hun neu fel rhan o brofiadau wedi’u casglu.

Yn syml ac yn berthnasol i chi: mwy o werth drwy ryddhau cynnwys BBC Radio o amserlenni i gasglu cyflwyniadau sydd wedi cael eu teilwra i’ch chwaeth a’ch cyfnodau gwranddo chi – ar-alw a drwy ffrwd newydd o gynnwys wedi’i amserlennu i helpu cynulleidfaoedd ifanc yn benodol i reoli straen a lles drwy gerddoriaeth a chynnwys llafar.

Ar gael ym mhob man: gweithio gydag eraill ar draws sector sain y DU i sicrhau bod radio yn parhau i ddatblygu, yn berthnasol ac yn amlwg yn y car ac ar lwyfannau newydd fel cynnwys llais.”

Diben Cyhoeddus 4

[Mewn perthynas â’r BBC yng Nghymru] “Byddwn yn denu cynulleidfaoedd iau drwy greu podlediadau a chynnwys pwrpasol ar gyfer BBC Sounds – gan gynnwys The Hayley Pearce Podcast.”

[Mewn perthynas â’r BBC yng Nghymru] “Byddwn yn parhau i ehangu ein cynnwys Cymraeg sy’n cael ei gynhyrchu’n arbennig ar gyfer BBC Sounds, a byddwn yn creu mwy o le i leisiau amrywiol ac yn cryfhau ein darpariaeth i gynulleidfaoedd ifanc.”

[Mewn perthynas â’r BBC yng Ngogledd Iwerddon] “Datblygu proffil, cyrhaeddiad ac effaith cynnwys sy’n cael ei gynhyrchu’n lleol ar BBC Sounds, gan gynnwys podlediadau fel Year 21.”

Cynllun gwaith Ofcom 2021/22

- 2.45 Fel rydym yn egluro yn ein cynllun gwaith ar gyfer 2021/22,³¹ rydym yn cyflwyno prosiectau eraill yn y BBC i gefnogi darlledu yn y DU. Mae tri o'r prosiectau hyn yn berthnasol i'r materion a godwyd gan ymatebwyr i'r cais am dystiolaeth ynghylch BBC Sounds.
- 2.46 Yn gyntaf, rydym yn cychwyn ar ein hadolygiad cyfnodol cyntaf o'r BBC, cyn adolygiad canol tymor y Llywodraeth o'r Siarter. Yn ogystal ag adolygu perfformiad y BBC hyd yma, byddwn yn nodi themâu a materion ar gyfer rheoleiddio'r BBC yn y dyfodol, ac yn ystyried heriau strategol yn y dyfodol.
- 2.47 Yn ail, rydym yn ystyried sut dylai'r Drwydded Weithredu ddatblygu i adlewyrchu newidiadau yn nisgwyliadau ac arferion cynulleidfaoedd mewn byd digidol. Mae'r Drwydded Weithredu bresennol yn cynnwys amrywiaeth o Amodau Rheoleiddio penodol, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â gwasanaethau darlledu llinol. Wrth i gynulleidfaoedd wyllo a gwrandao fwy a mwy ar gynnwys ar-lein, drwy BBC Sounds, BBC iPlayer a gwasanaethau ffrydio eraill, byddwn yn ystyried sut dylai'r Drwydded Weithredu ddatblygu i adlewyrchu hyn.
- 2.48 Yn drydydd, byddwn yn parhau i adrodd ar berfformiad y BBC er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn cyflawni ei Genhadaeth ac yn hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus, a'i fod yn cydymffurfio â'r Drwydded Weithredu a gofynion rheoleiddiol eraill.

Adolygiad y Llywodraeth o radio digidol a sain

- 2.49 Mae'r Llywodraeth wrthi'n cynnal adolygiad o'r sector radio a sain yn y DU, gan ganolbwyntio ar sut mae sicrhau bod radio yn dal yn addas i'r dyfodol.³² Rydym yn disgwyl i ganlyniad yr adolygiad gael ei gyhoeddi yn ystod y misoedd nesaf, a byddwn yn ystyried ei ganfyddiadau wrth ddod i'n casgliadau terfynol ar effaith BBC Sounds ar y farchnad.

³¹ Cynllun Gwaith Ofcom 2021/22, Mawrth 2021.

³² <https://www.gov.uk/government/news/government-announces-details-of-new-review-to-protect-the-future-of-radio>